YR

YMOFYNYDD.

Cyfres Newydd.] EBRILL, 1886. [Rhif 56.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

DUW YN Y BEIBL.

GAN Y PARCH. DDR. VANCE SMITH, PRIF ATHRAW COLEG CAERFYRDDIN.

"*Yr Arglwydd a ä allan fel cawr, fel rhyfelwr y cyffry eiddigedd; efe a waedda, ïe, efe a rua; ac a fydd trech nâ'i elynion.*"—Esaiah xlii. 13.

Mae yr adnod hon yn un yn mhlith llawer, hyd y nod yn Esaiah, sydd yn priodoli nodweddion i'r Bod Hollalluog o gymmeriad isel a materol, y cyfryw ag mae yn rhaid i'r meddwl ystyriol edrych arnynt fel yn annheilwng o'r Hwn sydd yn anchwiliadwy ac yn anolrheinadwy. Nid yw ymadroddion o'r fath hyn ddim yn anaml yn y Beibl, ac maent yn datguddio i ni anallu yr hen ysgrifenwyr a'u defnyddient i ymgodi (heblaw yn achlysurol) i syniadau mwy cymhwys a boddhaol am y Goruchaf. Yr oedd ysgrifenydd Llyfr Genesis yn edrych ar y Creawdwr fel yn meddu ar ffurf a phrydweddau dynol, oblegyd dywedir am dano ei fod wedi gwneyd dyn ar ei lun ac ar ei ddelw ei hun—yn gymhwys fel y dywedir am Adda fod mab wedi ei eni iddo "ar ei lun a'i ddelw ei hun" (Genesis v. 3). Mae y geiriau gwreiddiol a ddefnyddir i osod hyn allan yr un yn y ddwy enghraifft. Felly dywedir yn Genesis xviii. fod Jehofah wedi ymddyddan ag Abraham a Sarah wrth ddrws y babell. Mae e'n cyfranogi o'r ymborth a barotoir iddo. Adroddir am Abraham fel yn sefyll yn agos tra oedd yr Arglwydd a'i gymdeithion yn bwyta. "Efe a safodd gyda hwynt dan y pren, a hwy a fwytasant." Gallesid nodi enghreifftiau ereill i'r un perwyl, y rhai a ddangosant i ni syniadau syml a phlentynaidd yr amseroedd boreu am Dduw. Nid yw y fath ymadroddion yn eithriadol, ond yn hytrach maent yn cyfateb i dôn ac yspryd mwyaf cyffredin yr hen Ysgrythyrau. Ond mae llawer, er hyny, o eithriadau i'r sylw hwn. Ceir yr esiampl fwyaf amlwg o hyn yn Llyfr Job, yn yr hwn mae llawer o syniadau addfed a

dyrchafedig am fawredd doethineb a chyfiawnder Duw, er nad yw hyd y nod y llyfr hwn ddim yn rhydd oddiwrth y duedd i synied ac i siarad am y Bôd Dwyfol o dan gyffelybiaeth ddynol. Yn mhob oes mae dynion wedi bod yn agored, yn eu hanwybodaeth, i feddwl am Dduw fel bôd tebyg iddynt hwy eu hunain, gydag aelodau, teimladau, a nwydau dynol. Yn cydfyned â'r duedd hon mae y meddwl am alluoedd llywodraethol y byd fel yn lluosog o ran rhif ac amrywiol o ran cymmeriad. Meddylid fod un neu ddau neu dri Bôd Mawr yn annigonol ar gyfer gweithrediadau amrywiol y byd gweledig; ac felly, ond i'r dychymyg unwaith gael ei ryddid, yr oedd mor hawdd i wneyd llawer o dduwiau ag i wneyd un.

O braidd mae angen i sylwi na chyfarfyddir â'r duedd hon at amldduwiaeth yn y Beibl. Mae yn hollol i'r gwrthwyneb. Mae ei unduwiaeth yn nodwedd wahaniaethol perthynol iddo. Os ydyw yn fynych yn gwneyd y Duwdod yn fôd personol, yn yr ystyr ddynol o hyny, mae yn gochelyd gwneyd lluosogrwydd o'r fath fodau. Mae yn cadw yn agos at y syniad o un Duw i Israel, ac felly, yn parotoi y ffordd ar gyfer dadblygiad syniadau uwch pan y delai cyflawnder yr amser. Ond yr oedd y dull dynol hwn o edrych ar Dduw yn dyfiant naturiol ac angenrheidiol yr oesau boreu, a dyma gyflwr cyntefig gwybodaeth yn mhlith dynion y Beibl yn gystal ag yn mhlith ereill. Dengys y ffaith i ni nerth yr argyhoeddiad a berthynai i'r amseroedd hyny. Ond er cryfed yr argyhoeddiad, mae y syniadau am Dduw tebyg i'r hyn a gynnwysir yn y testyn yn ymddangos yn wrthun i feddyliau ystyriol amseroedd diweddarach. Nid iaith ffigyrol chwaith yw yr hon a ddefnyddir. Rhaid i ni ddeall yr ymadroddion yn eu hystyr briodol a llythyrenol; ac yn ein golwg ni, nis gallant fod yn wir am yr ysprydd tragwyddol sydd yn fywyd y byd.

Ond paham yr arweinir ni i amheu ac i betruso gyda golwg ar dderbyniad yr hen olygiadau Beiblaidd hyn am Dduw? Mae ateb deublyg i'r gofyniad pwysig hwn. Yn gyntaf, nid yw y Beibl yn hollol gysson ag ef ei hun. Mae llawer o awgrymiadau ynddo yn ein harwain at syniadau uwch, ac yn ein hannog i beidio gorphwys ar y meddwl fod Duw yn fôd terfynedig, a bod dyn yn gymhwys i'w chwilio allan i berffeithrwydd. "A elli di wrth chwilio gael gafael ar Dduw? A elli di gael yr Hollalluog i berffeithrwydd? Cyfuwch â'r nefoedd ydyw, beth a wnei di? Dyfnach nag uffern yw, beth a elli di ei wybod?" Felly y dywed Llyfr Job, ac meddai'r proffwyd, "Nid fy meddyliau I yw eich meddyliau chwi, ac nid eich ffyrdd chwi yw fy ffyrdd I, medd yr Arglwydd." Ac y mae yn siarad am Dduw fel yr Hwn "a fesurodd y dyfroedd yn ei ddwrn, ac a fesurodd y nefoedd â'i rychwant, ac a bwysodd y mynyddoedd mewn pwysau, a'r bryniau mewn cloriannau." Gallesid dyfynu llawer o ymadroddion o'r natur hwn; ond y maent yn fynych i'w cael yn gymmysg ag ereill o gymmeriad is-raddol. Er hyny, effaith canol swn yr Ysgrythyrau yw deffroi y teimlad o'r dirgelwch mawr a difrifol sydd yn amgylchynu gorsedd Duw, ac i ddangos i ni nad oes un iaith yn ddigonol i ddesgrifio y "Brenin tragwyddol, anfarwol, ac

anweledig," oblegyd y mae Ef yn anfeidrol uwchlaw ein meddyliau uwchaf ni.

Ond mae ateb arall mwy effeithiol i'r cwestiwn ydym wedi ofyn. Yr ydym yn cyfeirio at y wybodaeth fwy cywir mae dyn yn gyrhaedd yn barhaus mewn perthynas i ddeddfau, nodweddion, a galluoedd pethau fel maent yn bodoli o'n hamgylch, oblegyd, yn sicr, mae gwybodaeth o'r rhai hyn yn golygu gwybodaeth o'r ewyllys Ddwyfol—o'r ffordd yn yr hon mae Duw wedi dewis amlygu ei hun yn y greadigaeth. Ond y mae hyn, wed'yn, yn ein harwain i gasgliadau sydd yn wahanol iawn mewn llawer o ystyriaethau oddiwrth yr hyn a ymddengys yn y Beibl. Er esiampl, gyda golwg ar y ffordd y darfu i'r gallu a'r doethineb creadigol weithredu yn y gorphenol, yr ydym yn hollol gyfarwydd â'r hanes a gawn ni yn y Beibl. Dywed wrthym fod y cwbl a welwn ni wedi cael eu creu yn mron ar yr un amser—beth bynag, yn nghwrs chwech o ddyddiau, a bod Duw yn gorphwys oddiwrth ei waith ar y seithfed dydd. Mae yr oll yn ffurfio darlun mawreddog a rhyfeddol. Mae yr Hollalluog yn traethu ei orchymyn, ac mae pob peth sydd yn bodoli yn dyfod allan i'w le ei hun yn y byd wrth ei arch. Yn ddiweddaf, mae dyn yn cael ei ffurfio allan o bridd y ddaear gan y celfyddydwr Dwyfol, yr Hwn sydd yn anadlu i'w ffroenau anadl bywyd, ac mae dyn yn dyfod yn enaid byw. Mae y fath syniadau yn perthyn i fabandod y byd, ac maent mewn cydgordiad â'r syniadau dynol am Dduw yr ydym wedi sylwi arnynt. Ond o dan gyfarwyddyd Rhagluniaeth mae gwybodaeth arall ar y pwnc hwn wedi ei chyfranu i ni, o herwydd rhaid i ni gredu mai yn ol ewyllys Duw ac ysprydoliaeth Duw, mae y byd, fel mae e'n tyfu yn henach, yn taflu heibio "bethau bachgenaidd." Felly, mae llawer wedi dechreu gweled nad yw dull y greadigaeth ddim wedi bod yr hyn a feddyliai hen ysgrifenwyr. Mae cofnodion gwirioneddol y greadigaeth i'w cael ar dudalenau natur, ac yn ffeithiau lluosog hanesiaeth naturiol. Gorweddant o flaen ein llygaid, fel pe byddent wedi eu gosod yno er ein haddysg gan law Duw ei hun. Dywedant wrthym fod y greadigaeth wedi bod yn dyfiant araf trwy oesau dirif y gorphenol; fod bywyd wedi dechreu fyrddiynau o flynyddoedd yn ol mewn ffurfiau rhyfeddol o fychain a distadl, ac wedi tyfu i fyny yn raddol i'r ffurfiau perffeithiach o hono sydd yn bodoli yn bresenol. Paham mae y Gallu Dwyfol wedi dewis i greu y byd yn y modd hyn, nis gallwn esponio, na gobeithio byth i'w amgyffred yn y bywyd hwn. Ond fel rhai yn caru y gwirionedd, nis gallwn lai nâ derbyn y ffeithiau hyn fel datguddiad newydd Duw o hono ei hun a'i ffyrdd, yr hwn mae Ef wedi gyfranu ac yn cyfranu i'r oesau diweddar. O ganlyniad, nid ydym ni mwyach at ein rhyddid i feddwl am Dduw fel "cawr" ac fel "rhyfelwr," yr hwn sydd yn myned allan i waeddu ac i ruo yn erbyn ei elynion. Nid ydym i feddwl am dano fel dyn o gwbl, pa mor fawr a galluog bynag. Gelwir arnom i gofio yn fwy gofalus nag erioed eiriau Crist, "Yspryd yw Duw," a'i fod yn preswylio yn y goleuni anhygyrch, nas gall un dyn ddynesu ato, fel y mae ein meddyliau uwchaf ni yn mhob ffordd yn annigonol i osod allan fawredd a gogoniant Duw.

Fel canlyniad y sylwadau hyn, gellid gofyn—Beth, ynte, yw safle neu werth y Beibl fel llyfr crefydd, os ydyw ei osodiadau mewn perthynas i Dduw mor aml yn anmherffaith, ac mor debyg o gamarwain? Mae y gofyniad wedi ei ateb mewn effaith o'r blaen. Nid yw iaith y Beibl i gyd mor anmherffaith. Mae llawer o hono yn ysprydol a derchafedig; ac yn amlwg, dylem wahanu rhwng y drwg a'r da. Mae y rhan henaf o'r Ysgrythyrau, mewn gwirionedd, y cwbl ag sydd yn aros o lenyddiaeth hen genedl. Fel y cyfryw, mae yn dwyn argraff amseroedd o wybodaeth anmherffaith, ac o deimlad barbaraidd; ond yr ydym yn rhydd i adael o'r neilldu yr hyn nad yw yn cymmeradwyo ei hun i feddwl ystyriol, a theimlad moesol rhagorach amseroedd diweddar. Wrth eiriau a meddyliau Crist a Phaul, gallwn gywiro yr hyn sydd yn llai pur a rhagorol yn addysgiadau yr Hen Destament.

Yn mhellach, mae y Beibl yn ei natur hanfodol yn gofnodiad o feddwl a gwaith y gorphenol, er mwyn dangos i ddynion y ffordd, i'w cynnorthwyo ar y ffordd, tuag at wirionedd ac iawnder mewn cyssylltiad â syniadau crefyddol. Mae wedi bod yn un o brif orchwyliaethau Duw er mwyn arwain yn mlaen ran fawr o ddynoliaeth i'r sefyllfa foesol a chrefyddol ag mae wedi gyrhaedd. Ond mae gorchwyliaethau ereill hefyd wedi bod ar waith. I beidio dweyd dim am grefyddau a llyfrau ereill crefydd, mae pob gwir wyddor mewn effaith yn ddatguddiad Duw. Mae profiadau hanes y gorphenol a'n bywydau ein hunain wedi rhoddi i ni wersi dirif, ac mae y rhai hyn hefyd yn cynnwys llawer awgrym o ewyllys Duw a ffyrdd ei ragluniaeth. Mae y Beibl wedi bod yn elfen fawr yn nadblygiad graddol y natur ddynol. Ond nid yw yn gyflawn ynddo ei hun, ac nis gellir ei ystyried yn *derfynol* yn ei addysg. Mae pobpeth ydym yn wybod mewn perthynas i ddechreuad hanes a chynnwysiad llyfrau y Beibl yn dangos hyn—nad yw y Beibl ynddo ei hun ddim yn gyfrwng cyflawn a therfynol addysg dynolryw, ond fod ffyrdd anchwiliadwy Duw yn ein harwain ni o hyd at wirionedd uwch, a gweledigaeth clirach mewn perthynas i greadigaeth a rhagluniaeth y byd. Ein dyledswydd ni yw cadw ein meddyliau yn agored i bob pelydryn o oleuni newydd a ddichon ddyfod atom o unrhyw gyfeiriad; i beidio cau ein hunain i fyny tufewn i furiau credöau ac erthyglau, cynnyrch canrifoedd o anwybodaeth a choel-grefydd, ond yn hytrach edrych i fyny am fwy o oleuni, a chyrchu yn mlaen at ddatguddiad mwy cyflawn o'r gwirionedd Dwyfol a roddir, yn gynnar neu yn ddiweddar, i bawb sydd yn ei geisio, ac yn parotoi eu hunain i'w dderbyn.

Mae yn angenrhaid i fod ar ein gwyliadwriaeth ar ddau neu dri o bethau. Dylem wylied ein hunain mewn meddwl ac ymadrodd, rhag iselhau a materoli y syniad am dano Ef, yr hwn sydd Yspryd, ac yn egwyddor bywyd yn yr holl greadigaeth. Dylem hefyd wylied rhag cyfeiliornad o natur arall. Os dywedwn ni nad yw Duw yn fôd personol mewn unrhyw ystyr ddynol, etto, ni ddylem feddwl am dano Ef fel yn amddifad o fodolaeth hunan-ymwybodol a deallus. Nid ydyw Ef yn allu (*force*) yn unig yn natur pethau; 'allwn ni ddim amheu nad yw Duw yn feddyliol ac yn foesol y cwbl ag ydym ni, ac yn anfeidrol

mwy, tra, ar yr un pryd, mae yn wir nas gallwn ni esponio sut y mae felly. Dylem wylied ein hunain rhag yr arddangosiadau gweinion a rhyfygus hyny o'r yspryd tragwyddol, sydd yn dweyd wrthym am natur guddiedig Duw fel yn dri pherson yn un Duw, &c., fel pe byddai yn bossibl i ranu a rhifyddu yr Anfeidrol, yn ol tybiau ofergoelus y gorphenol. Ar bob mater o'r fath, dystawrwydd a weddai i ni oreu.

Cyn terfynu, mae un gofyniad yn aros—Pa fath yspryd yw Yspryd Duw? Mewn ateb i hyn, mae genym, nid yn unig eiriau Crist, sydd yn dweyd wrthym mor eglur am ein Tad, yr hwn sydd yn y nefoedd, ond mae genym hefyd ffydd ddofn ein calonau ein hunain, sydd yn ein hadgofio nad yw yr hyn sydd oreu ac uwchaf yn ein heneidiau ein hunain ond adlewyrchiad gwan o'i natur ogoneddus Ef, ar lun ac ar ddelw yr hwn y dywedir fod dyn wedi ei greu. Mae genym, yn mhellach, y nodau dirif hyny o amcan daionus sydd yn treiddio trwy yr holl greadigaeth. Mae genym hefyd y tueddiadau parhaus hyny at fwy o ddaioni, mwy o oleuni, gwybodaeth, a gallu dros natur, y rhai ydynt, oes ar ol oes, yn amlygu eu hunain ar wyneb y profiad dynol, ac yn llefaru gydag effaith cynnyddol wrth bob meddwl ystyriol. Mae yn wir fod llawer o ddirgeledigaethau mawrion a phoenus yn aros gyda ni etto, oblegyd mae yr Hollalluog wedi dewis i weithio allan ei amcanion mewn ffyrdd nas gallwn ni ddim eu hamgyffred. Etto, o dan bob amgylchiad, ein doethineb a'n dedwyddwch uwchaf fydd cael allan ewyllys Duw, rhodio yn ostyngedig mewn ufudd-dod i'w hordeiniadau, a dweyd gyda Christ yn mhob cyfwng yn ein bywyd, "Dy ewyllys di a wneler."

W. J.

DA A DRWG YN MHOB DYN.

Ni ddygwyddais erioed adnabod neb a gyfrifid o gymmeriad drwg, ac a fyddai euog o bechodau amlwg a gwarthus, na byddai rhywbeth da a dymunol yn ei gymmeriad. Er mor llygredig a hunangar yw y nifer luosocaf o bobl, O! mor ddymunol yw sylwi gymmaint o ddaioni a geir yn mhob dyn a dynes yn mhob man. Pe ymddyddanem â drwgweithredwyr yn nghellau eu carcharau, caem lawer o dynerwch ac o deithi canmoladwy yn perthyn iddynt. Pe gwyddem faint o ddagrau poethion a wylir gan lawer geneth a gicir gan gymdeithas oblegyd iddi lithro i anniweirdeb, a phe deallem faint o ddefnydd cymmeriad da sydd yn nyfnder llawer calon dan warth rhyw un bai mawr felly, fe synem at y daioni cuddiedig sydd yn y byd yma, er gwaethed yw.

Os bydd rhemp go fawr ar ambell un, fe fydd rhyw gamp ar gyfer hyny. Os bydd dyn yn arswydus hoff o ddiod feddwol, ac wedi myned yn isel iawn ei le mewn cymdeithas oblegyd hyny, mae gan lawer un felly dynerach teimlad, ac yspryd llawer mwy dymunol, ac yn haws

o lawer ganddo wneyd cymmwynas nâ llawer cerlyn o grefyddwr Phariseaidd a chynddeiriog-ddirwestol.

Ac yn y Pharisead rhagrithiol hwnw wed'yn, mae llawer o bethau da a dymunol iawn. O y fath serchiadau anwyl sydd yn mynwesau tadau a mamau, "a hwy yn ddrwg!" A chymmaint o hunan-aberth a wnant er mwyn rhoddi "rhoddion da i'w plant!" O gymmaint o barodrwydd a welir mewn cymmydogaeth i helpu un a gyfarfyddodd â damwain! O gynnifer o gymmwynasau hollol ddihunangais a wneir gan hyd y nod baganiaid anwar! Dywed teithwyr fod Hindwaid yn India yn adeiladu tai o bwrpas i lettya teithwyr tlodion, ac yn rhoi bwyd a lletty i lawer, heb ddysgwyl na chlod nac elw. Wylai gwragedd yn Affrica wrth weled y teithiwr enwog Mungo Park yn sâl; a deuent â chyssuron iddo, gan gwyno ei fod mor bell oddiwrth ei fam a'i gartref. Mor groesawus oedd barbariaid ynys Melita i Paul a'i gydfordeithwyr llongddrylliedig! O gynnifer o hen "neiniau anwyl" ac o rai tyner-galon sydd yn mhlith y rhai a gyfrifir yn "golledigion" yn y byd yma!

Mae "Honour among thieves" yn aml yn y byd yma. Pan oedd Miss Dix yn y Talaethau Deheuol, amryw flynyddau yn ol, yn dysgu tlodion i ddarllen, ac ar amryw negeseuon cariadus i geisio lleihau trueni rhai isel eu hamgylchiadau, yspeiliwyd hi o'i phwrs a'i harian gan leidr yn Georgia. Ond pan ddeallodd yr yspeilydd mai Miss Dix gymmwynasgar a yspeiliwyd ganddo, daeth â'r pwrs a'r arian oll yn ol iddi, gan ddweyd nas gallai byth gymmeryd dim ar gam felly oddiar y fath foneddiges wir rinweddol.

O mor ffol, gan hyny, yw dweyd nad oes dim da yn naturiol mewn dynion, pan mae miloedd o enghreifftiau o ddynion a gyfrifir yn annuwiol yn gwneyd pethau canmoladwy, a hyny oddiar deimlad mor llwyr ddihunangais yn aml iawn, ag a fodola yn mynwesau y dynion a gyfrifir yn dduwiol! Ni waeth neb wadu *ffeithiau plaen*, pa mor groes bynag i ambell gredo ydynt.

Mae drygau mawrion wedi eu gwneyd filoedd o weithiau oblegyd fod pregethwyr yn dysgu na all neb wneyd y rhithyn lleiaf o dda cyn y caffo gyfnewidiad mawr goruwch-naturiol. Os mai lwmp o bechod oll, heb un gradd o bossiblrwydd gwneyd daioni ynddo yw pob plentyn a gyfrifir heb ei "ail-eni," yna mae yn rhaid mai pechod mawr yw rhoi plentyn felly yn yr ysgol; canys mae pob dysgu a phob diwyllio ar hwnw yn ddysgu ac yn ddiwyllio *pechod* yn unig!!

Pawb sydd yn credu mai pechadur heb ynddo y defnydd lleiaf o ddaioni mwy na chythraul yw ei blentyn, mae yn euog o addysgu pechod wrth roddi addysg i'r plentyn hwnw. Canys nid yw addysg yn ddim amgen na thynu allan—tyfu—yr hyn fyddo mewn dyn, a thyfu galluoedd pechadurus yn unig yw rhoi addysg i un nas gall fod yn ddim ond pechadur.

Dywedwyd ganwaith o bwlpudau na all dyn heb ei eni wneyd dim ond pechod, ac mai trysori iddo ei hun ddigofaint y mae wrth wneyd unrhyw a phob rhyw weithred lesol neu ganmoladwy! Cymhella pregethwyr wrandawyr Efengyl i roi yn helaeth yn y "casgliad," tra

y dywedant mai *pechu* mae y bobl hyny yn *mhob* peth a wnant. Onid yw hyny yn od fod y pregethwr yn eu *cymhell* i bechu !!

Ond gadawn yr ochr yna ar hyna yn awr, a thrown i edrych ar ffeithiau a brofant o'r tu arall fod drwg, ie, drygau lawer yn mhob dyn a dynes dda yn y byd yma. Ni ddygwyddais adnabod neb i dipyn o fanylwch na allwn weled llawer o frychau yn eu cymmeriad. A chefais gyfleusderau yn fy oes i feddu ychydig gydnabyddiaeth â phregethwyr a blaenoriaid enwog eglwysi, a rhai yn dwyn y teitl o D.D., a rhai a gyfrifid dduwiolaf yn yr oes. Ond ni welais neb a'r na byddai arno feflau a brychau amlwg. Gwelais rai yn proffesu mwynhau perffaith sancteiddhad, pryd yr oedd morwynion yn eu tai, a rhai a'i hadwaenent oreu yn adrodd ffeithiau am danynt anhawdd gan lawer eu credu am bobl yn proffesu pethau mor uchel. Chwedl Shakespeare, nid oes neb yn fawr a da i'r rhai a'u gwelant bob amser, ac sydd yn eu hadnabod gartref. Mae ein darllenwyr yn dystion ein bod ni, weinidogion yr Efengyl, yn hawdd iawn ein gyru i dymherau drwg, ac yn barod iawn i dalu adref gyda llog bob peth brwnt a wneir i ni. O bawb, ni waeth heb wadu ! mae llawer o bethau drwg yn y dynion goreu. Nid yw yr haul heb ei frychau, ac nid oes yr un paun cas ei ysgrech nad oes ganddo blu tlysion.

Yn ymyl ein Hathraw Mawr o Nazareth, mae gan bob un o honom waith cywilyddio am ei frychau duon ei hun, a'i ddiffygion a'i droseddau o ddeddf fawr cariad.

Ac erbyn ystyried mai am fod Duw wedi rhoddi gwell ymhenydd a mwy o fanteision i rai nag i ereill, y mae rhai yn well nag ereill i raddau mawr ; ac erbyn cofio mai yn ol yr hyn a gafodd pob dyn y gofyna Duw ganddo, mae digon o le i feddwl mai nid y rhai a gyfrifir y pechaduriaid penaf gan ddynion a gyfrifir felly bob amser gan Dduw.

Ychydig o sylwi manwl ar bethau fel hyn a bâr i ni wylo wrth feddwl gynnifer a ddiarddelwyd o eglwysi lawer gwaith pan gedwid rhai duach i mewn.

Yn siwr ddigon i chwi, rhaid cael rhyw bregethu amgenach, a dull gwahanol i ddwyn achos crefydd yn mlaen, nâ'r dull sydd genym o wneyd pawb yn golledig ond "y ni," a didoli ein hunain oddiwrth wrandawyr ein capeli fel yr ydys yn gwneyd, Mae didoliad sicr i fod rhwng y da a'r drwg ; ond didoliad a wneir gan bob dyn ei *hunan* yw hwnw, yn ol ei ddull o feddwl ac o fyw.

Pan ymddangosa Iesu Mawr, fe wna wawd rhyfedd o'n didoliadau bach ffol ni.

Mae llawer iawn yn son am fod " yn Nghrist," a dyfod at Grist, fel camu ar fwrdd *steamer*, a dyna fo a wnaeth hyny yn ddyogel o'i *bassage* i'r nefoedd, beth bynag a wna ! Pryd y mae yn amlwg mai i'r graddau y rhodio dyn " nid yn ol y cnawd, ond yn ol yr yspryd," y mae "yn Nghrist ;" ac i'r graddau y rhodio yn ol y cnawd, y mae allan o Grist. A gwyr pob dyn da ei fod, i raddau helaeth iawn, allan o Grist, gan fod cymmaint o gnawdolrwydd ynddo etto. Yr oedd Paul yn gweddio —" Ac y'm cair ynddo ef," er y gwyddai ei fod yn Nghrist, i ryw

raddau, "er's rhagor i bedair blynedd ar ddeg." Mae yn amlwg fod yr apostol yn golygu fod modd bod yn Nghrist yn helaethach y naill ddydd ar ol y llall. O pa bryd y dysgwn esponio y Beibl bendigedig yn ol ffeithiau amlwg anwrthbrofadwy, yn lle ceisio ystumio "stubborn facts" i gyfateb i ryw ddamcaniaethau a fyddont draddodiadau y tadau am y Beibl!

(Y Diweddar) R. L. Herbert.

(*Yn "Y Drych" am* 1866.)

CAEL DUW ALLAN.

(*Parhad o tud. 55.*)

2. Mae llawer o ddynion yn crio allan, "Y mae datguddiad arall a mwy rhyfeddol o Dduw." Gall y llyfr hwn, y Beibl, ddywedyd rhagor wrthych am Dduw nag a allech chwi ddarganfod, er i chwi astudio natur i'r graddau pellaf. Ac yr ydym ni yn cytuno yn hollol â'r bobl hyn, fod datguddiad o Dduw yn y Beibl—datguddiad uwch a gwell nâ'r hwn sydd i'w gael yn nghyfreithiau anianyddol y greadigaeth. Yma, yn y Beibl, yr ydych yn alluog i astudio yr enaid dynol, a phan y deuwch at yr enaid byw, yr ydych yn dyfod agosaf at y Duw byw. Ni feddyliwn y gall neb werthfawrogi y Beibl yn fwy nâ nyni. Y llyfr ardderchocaf yw a wyddom ni am dano, ac y mae ynddo lawer o ymadroddion sydd yn dysgleirio ac yn goleuo ac yn llosgi â thân Ysprydoliaeth. Ond beth yw y Beibl? Hanes yw o ymchwiliad dyn i gael allan Dduw. Dywed wrthym pa fodd y mae dynion, trwy yr oesau, yn ymdrechu ateb y cri, "O na wyddwn pa le y cawn Ef." Dywed wrthym pa fodd na allai dynion orphwys yn foddlongar gyda gallu dychrynllyd y greadigaeth, a pha fodd y gallasent ddyfalu yn niwlog fod Cariad Anfeidrol a Thad Tragwyddol yn bod. Dywed yr Ysgrythyrau wrthym pa fodd y darfu i ddynion ereill chwilio am Dduw. Ond os ydym ni am gael Duw allan, y mae yn rhaid i ni ei geisio Ef a'i gael drosom ein hunain. Gellwch ddarllen y gweddiau yma o eiddo Dafydd, yr emynau yma o eiddo Esaiah, ac amheuon ac ymdrechiadau egniol Job; ond yr oll allant hwy wneyd yw dangos i chwi pa fodd y gellwch gael Duw allan drosoch eich hunain. Hyd y nod pe gallech brofi mai Duw ei hunan ysgrifenodd y Beibl, ni allem ymfoddloni ar hyny. Paham? Oblegyd y mae y llyfr olaf yn y Beibl o gylch deunaw cant o flynyddau o oed. Yr ydym ni yn ymofyn gwybod, nid beth ddywedodd Duw yn unig filoedd o flynyddau yn ol, ond yr ydym am gael gwybod beth yw y genadwri sydd ganddo i ni y dyddiau diweddaf hyn. Os oes Duw byw, y mae yn rhaid iddo fod yn alluog i siarad wrthym *ni* yn gystal ag wrth Esaiah a Phaul a Christ. Yn credu, fel yr ydym ni, mewn Duw presenol a byw, pan wedi i ni ddarllen y Beibl, cawn ef i fyny, ac awn at orsedd ein henaid ein hunain, a dy-

wedwn, "Llefara, Arglwydd, canys y mae dy was yn clywed." (1 Sam. 3, 9.)

Pan oedd fy nghyfaill yn teithio mewn gwlad bell, yr oedd ei lythyrau yn werthfawr; ond gwell nâ'r cyfryw yw, pan y mae yn dyfod adref, a phan y gallaf ymaflyd yn ei law, a siarad ag ef wyneb yn wyneb. Hyd y nod pe buasai Duw wedi ysgrifenu y Beibl, y mae rhywbeth gwell nâ darllen yr ysgrifeniadau Dwyfol bob amser; hyny yw, i deimlo cyffyrddiad y Presenoldeb Dwyfol, a dal cymmundeb â'r Meddwl Dwyfol. A gallwn ddeall pa fodd y gall rhai ddarllen y Beibl, a dywedyd, "Carem ni pe gallasem deimlo mor agos i Dduw â'r Salmwyr mawrion a'r proffwydi a'r apostolion gynt." Darfu iddynt hwy gael Duw allan, ac O na wyddem pa le y caem ni ef allan hefyd.

3. "Ah!" medd rhywun, "ni ellwch gael Duw allan ond yn Iesu Grist. Yma, yn mherson a gwaith yr Iachawdwr mawr, y mae amlygiad cyflawn a pherffaith o'r Duw byw." Yn awr, beth feddylia dynion pan ddywedant mai Iesu Grist yw y datguddiad o Dduw? Y maent yn rhwym o fod yn golygu fod cariad, tosturi, a chydymdeimlad, purdeb a gwirioneddau Crist, yn rhinweddau Dwyfol. Y mae yn rhaid eu bod yn golygu fod cymmeriad Crist mewn cydymffurfiad rhyfeddol ag ewyllys Duw. Mewn gair, fod Crist wedi cael Duw allan—wedi ei gael allan mewn modd nad oedd neb arall wedi ei gael allan. Cafodd Crist Dduw yn nyfnderoedd ei ymwybodolrwydd sobr crefyddol; bu yn byw mewn cymmundeb ymwybodol gyda Duw; gwyddai bob amser beth oedd ewyllys y Tad, a bu fyw mewn ufudd-dod iddi. Yr oedd ei natur ddynol wedi ei dwyn i'r fath undeb â'r natur Ddwyfol, fel, pan ddarfu iddo deimlo ei agosrwydd bendigedig at y Tad, y torodd allan, gan ddywedyd, "Myfi a'r Tad un ydym." A phan ofynai dynion iddo am y ffordd at y Tad, dywedodd mewn effaith, "Byddwch byw y fath fywyd ag wyf fi yn ei fyw, ac yna, bydd i chwi gael Duw allan fel eich Tad." Dywedai ef, "Myfi yw y ffordd. Myfi yw y drws." Ond ni ellwch chwi gael Duw allan yn unig oblegyd fod yr Iesu wedi ei gael. Os mai yr Iesu yw y ffordd, yna ni wnaiff y tro i ni ymfoddloni ar ei edmygu, ei garu, a'i addoli, ond rhaid i ni, hefyd, gael ein gwneyd yn un ag ef mewn ystyr ysprydol. Pe gallasai yr Iesu weled y miloedd dynion sydd yn ei addoli ef y dydd hwn, dywedai, "Na oedwch yn agos i mi. Ewch i'r deml fyw, lle y mae y Tad nefol yn datguddio ei hunan." Ni allwn gael Duw allan trwy gredu yn Nwyfoldeb Crist, ond yn unig trwy ddyfod yn Ddwyfol ein hunain. Gall porth y deml fod yn brydferth iawn, ond ni ddylai ei brydferthwch ein cadw rhag myned i fewn i'r lle sanctaidd, lle y gwelwn ac y teimlwn bresenoldeb ac y clywn lais uniongyrchol y Duw byw.

4. Yno yn unig, y gellwch gael Duw allan. Oddieithr i chwi gael Duw allan yn eich enaid eich hunan, ni ellwch ei gael mewn un man arall; ond pan gewch Ef yno, cewch Ef yn mhobman—yn mherson Crist, ac ar dudalen yr Ysgrythyr, tra y bydd hyd y nod i ddychrynfeydd natur ddyfod yn ddysgyblaeth rasol o gariad y Tad. A dyma y ffordd yn yr hon y mae y Testament Newydd yn dweyd wrthym yn barhaus fod yn rhaid i ni gael Duw allan. "Gwyn eu byd y rhai pur

o galon, canys hwy a welant Dduw." "Duw, cariad yw; a'r hwn sydd yn aros mewn cariad sydd yn aros yn Nuw, a Duw ynddo yntau."

Yn awr, ni ddywedwn y gallwch gael pobpeth allan mewn perthynas i Dduw; ond dywedwn y cawn ni allan yn mhrofiad ein heneidiau ein pethau goreu yn nghylch Duw; gallwn gael y wybodaeth ydym yn sefyll mewn mwyaf o angen am dani. Y mae y wybodaeth hon o Dduw, sydd yn dyfod oddiwrth ein profiad ein hunain, yn werthfawr, oblegyd gall pob dyn ei meddiannu. Nid eiddo i seintiau, duwinyddion, ac athronwyr yn unig ydyw. Y mae yn eiddo dynion llafur, menywod blinedig, ac hyd y nod blant bychain. Y grefydd hon yw y peth mwyaf gwerinol y gwyddom am dano. Gall gael ei deall gan unrhyw ddyn y mae ei galon yn curo gan gariad, ac enaid yr hwn sydd yn awyddu ar ol purdeb. Gesyd o'r neilldu bendefig-lywiaeth ac offeiriadaeth, a chyhoedda weriniaeth ogoneddus eneidiau y rhai sydd yn cyfranogi y bywyd Dwyfol, ac yn ymdrechu ar ol y delw Dwyfol. Dyma grefydd oruchel a chyffredinol dynoliaeth a ddysgodd yr Iesu pan ddywedai, "Am i ti guddio y pethau hyn rhag y doethion a'r rhai deallus, a'u datguddio o honot i rai bychain." Y ffordd agored at Dduw ydyw trwy y galon ddynol—y galon wedi cael ei gwneyd yn bur a mabaidd trwy ysprydoliaeth gwirionedd a chariad. A'r peth goreu o bob peth yw hyn:—Y darganfyddiad fod Duw, yn ein holl ymchwiliad am dano, yn ein ceisio ni. Siaradwn am ddyn yn ymbalfalu ar ei ffordd ar ol Duw; ond dywed yr Iesu fod y Tad bob amser yn ceisio y sawl fydd i'w addoli Ef mewn ysbryd a gwirionedd. Ni allem ni hiraethu am Dduw pe na fyddai Ef yn hiraethu am danom ni. Yr hiraeth hwn o fewn ein natur ydyw yr arwydd o'i bresenoldeb Ef, a symmudiadau ei Yspryd. Y mae, nid yn unig yn rhoddi yr ateb, ond yn cynhyrfu gweddi. Pan fyddo yr enaid dynol yn crio, "O na wyddwn pa le y cawn Ef," gallwn fod yn sicr nad yw Duw yn mhell.

(*a*) Bydded i ni oll deimlo ein hangen am Dduw. (*b*) Fod yn rhaid i ni gael Duw allan drosom ein hunain. (*c*) Fod yn rhaid i ni ei gael allan yn ein natur uwch—yn mhurdeb yr enaid, yn nghariad ein calon, yn ngwirionedd a chywirdeb ein meddwl. (*d*) Yn y diwedd, cawn allan fod Duw wedi bod yn ein ceisio ni bob amser, a'i fod Ef, o'r diwedd, wedi ein cael ni allan, a ninau wedi ei gael Ef.

L.

Y PWLPUD.

(*Parhad o tudalen* 62).

Yr wyf o'r farn, Mr. Golygydd, fod fy erthygl ar y testyn uchod yn yr Ymofynydd diweddaf yn rhy faith—yn feithach nag yr oedd ei bwysigrwydd yn ofyn. Ymdrechaf roi iawn am hyny, trwy anfon i chwi ysgrif fer y tro hwn. Os na byddaf yn unol â'm haddewid, gallwch fod yn sicr mai wedi ffaelu y byddaf.

Y gwir yw, ni waeth lawer pa un ai Pwlpud neu *Blatform* a ddewisir, na pheth eu defnyddiau a'u ffurfiau; y peth sydd o bwys yw cael Pregethwr o'r iawn ryw yn y Pwlpud neu ar y *Platform*. O ran hyny, y mae yn wir ddigon fod rhai o'r pregethau mwyaf gwlithog ac adeiladol a draddodwyd erioed wedi cael eu traddodi cyn hyn ar benau ystolau a phlocynau, mewn anedd-dai, ysguboriau, a beudŷau, ac ar benau cloddiau yn yr awyr agored. Mesur o wybodaeth a dawn i draddodi'r genadwri yw anhebgorion y Weinidogaeth Gristionogol, ac nid Pwlpudau a *Phlatforms*, y rhai, ar y goreu, nid ydynt amgen nâ chyfleusderau.

Mae cymhwysderau yn ofynol at bob galwedigaeth, ac y mae y cymhwysderau yn amrywio yn ol fel y mae y galwedigaethau yn amrywio. Y ffordd sicraf i lwyddiant yn mhob cyfeiriad yw cael y *right man* yn y *right place*. Gofaler am hyn yn nygiad dynion ieuainc i fyny i lanw gwahanol gylchoedd mewn bywyd cyhoeddus. Ceisier gwybod y galluoedd â pha rai y mae natur wedi eu cynnysgaethu, ac wedi rhoddi iddynt y gwrtaith a'r caboledd dyladwy, gosoder hwynt mewn sefyllfaoedd lle y gallant fod o anrhydedd iddynt eu hunain, ac o les cyffredinol i gymdeithas. Camwedd fyddai i rieni ddysgu un o'u plant i fyny yn saer coed, pan y mae natur wedi trefnu iddo fod yn ôf, neu ddwyn un i fyny yn amaethwr, yr hwn sydd yn llawer mwy cymhwys i fod yn dincer. Mae llawer o bethau yn cael eu gwneuthur go chwith, fel hyn, o ddiffyg gofal ac ystyriaeth; ac nid yn unig y mae hyn yn anffawd bersonol, ond hefyd yn niwed cyffredinol.

Mae enghreifftiau o gamgymmeriadau truenus o'r fath hyn i'w cael yn nhrefn, neu yn hytrach yn annhrefn y Weinidogaeth Gristionogol. Mae aml i fab, gyda thraffeith a thraul mawr i'w rieni, wedi cael ei ddysgu i fyny a'i urddo yn offeiriad, a'i ddonio, meddir, â'r Yspryd Glan, i ofalu am eneidiau ei gyd-ddynion, yr hwn, a gwneuthur yn deg ag ef, a ddylasai gael ond yn unig gofal ei enaid ei hunan, a bod yn gyfreithiwr, neu yn feddyg, neu yn dir-fesurydd, neu yn *excise officer*, neu hwyrach yn rhywbeth arall lawer o risiau yn is. Mae hefyd lawer un yn mhlith y gwahanol enwadau wedi cael ei gymhell, neu wedi ymwthio i'r Pwlpud, pan mai ei le priodol fuasai rhwng dau corn yr aradr, neu ar fwrdd y dilledydd, neu ar fainc y crydd neu'r *cobbler*. Mewn cyferbyniad i'r wall-drefn uchod, dywedaf fod heddyw ddynion, trwy orfodaeth amgylchiadau, yn nghorfanau gwehyddion, ac yn ysgubwyr heolydd, ac yn *chimney sweeps*, o ddoniau naturiol arbenig a fuasent, pe wedi cael manteision addysg yn moreu eu hoes, yn ogoniant ein Pwlpudau—yn alluog, trwy swyn eu hamgyffredion a'u hyawdledd, i dyneru calonau celyd pechaduriaid, a'u dadebru i fywyd ysprydol.

Wrth droi tudalenau hanes yr Eglwys yn y gorphenol, adgofir ni o enwau Pregethwyr o dalentau dysglaer a fuont yn sefyll i fyny, o bryd i gilydd, yn rhai o Bwlpudau Cred, yn y rhai y cyfarfyddai braidd yr oll o'r "amryw ddoniau"—duwinyddion dyfnddysg, rhesymwyr galluog, areithwyr parablbêr, a ddihunent ac a wresogent y bobloedd â thân eu hyawdledd—o ddwfn gydymdeimlad â'u cyd-ddynion yn eu

tywyllwch a'u pechod, ac yn mhob ystyr arall, yn Weinidogion teilwng y Gair. Gellid rhoi i lawr yn y fan hon restr o'u henwau, pe byddai hyny yn angenrheidiol. Fe gofia'r darllenydd ei hunan am lawer o honynt. Llonyddwch i'w llwch, a pharch i'w coffadwriaeth. Mae genym hefyd mewn Pwlpudau yn bresenol ddynion o deilyngdod pur ac o uchel gymmeradwyaeth—sêr o'r maintioli mwyaf, a ddaliant eu cymharu â goreuon yr oesau, sydd wedi myned heibio, o ran dysg a dawn, ac ymroddiad, i waith y weinidogaeth. Nid oes eisieu eu henwi—y maent yn ddigon adnabyddus yn eglwysi y gwahanol enwadau. Byddai gwneuthur hyny hefyd yn ddigalondid i'r gweiniaid, y rhai ydynt, lawer o honynt, yn llawn mor gydwybodol, llafurus, a ffyddlon yn yr achos, ac yr un mor sicr o'r goron ryw ddydd a ddaw.

Er edmygu rhagoriaethau ein pen-weinidogion, a chyd-ddwyn ag ereill o is radd ar gyfrif eu didwylledd a'u ffyddlondeb, etto, nis gellir yn rhwydd esgusodi yn ein gweinidogion ryw bethau ag sydd allan o le—pethau y dylid, ac y gellid eu gochelyd, ond ewyllysio ac ymdrechu. Na feddylied y darllenydd fy mod wedi annghofio'r cynghor caredig, "Na farnwch fel na'ch barner," yn nghyd â'r hen ddiareb, "Y meddyg, iachâ dy hun." Yr wyf wedi sylwi ar ambell un yn y Pwlpud, weithiau, fel pe byddai yn meddwl mwy am dano ei hunan nag am Dduw a'r gwirionedd, ac angenion ysprydol y bobl y mae yn myned i'w hanerch. Y mae yn ddyn balch yr olwg arno, yn sefyll yn syth, fel pe newydd ei *starcho*, ac yn ofni cyffro braidd i ddywedyd gair, rhag i flewyn fyned allan o'i le. Dylai y Pregethwr geisio bod mor brydferth a naturiol yn y Pwlpud ag y medro, fel y byddo i'r gynnulleidfa roi, nid eu llygaid i sylwi ar ei berson (pert, wrth gwrs, yn ei olwg ei hun), ond eu clustiau i wrandaw ar yr hyn fyddo yn cael ei draethu ganddo. Nid yw'r sylw uchod yn hollol ddi-alw-am-dano, er, hwyrach yr ystyrir fi yn feius am ei wneyd. Boed hyny fel y bo. Fy amcan yw dal i fyny anrhydedd y Pwlpud, ac ychwanegu ei ddylanwad.

Etto, mae ambell i Bregethwr yn ddarllenwr mor sâl, nes y mae yn gwneuthur cam â'r hyn y mae yn ddarllen. Mae yn darllen mewn tôn mor isel, ac yn pregethu yn yr un modd, fel nad yw llawer o'r bobl yn ei glywed, neu feallai mai ei brif ddiffyg yw pwysleisio yn gyfeiliornus, neu beidio pwysleisio o gwbl, ond myned rhag ei flaen yn yr un dôn o ddechreu yr oedfa hyd ei diwedd, mor debyg a dim i ffrwd pistyll. Pan y mae dyn cyfarwydd a dyn annghyfarwydd yn adrodd yr un 'stori, braidd y gellir dweyd mai yr un yw. Felly, hefyd, gyda golwg ar gyflawniadau y Pwlpud; y mae gwahaniaeth dirfawr rhwng y medrus a'r anfedrus yn eu gwasanaeth. Mae rhyw swyn, nerth, a bywyd yn nhôn a llafar gwrteithiedig darllenwr a siaradwr celfydd. Yr ydys yn cael mewn hanes y gallasai Demosthenes gynt swnio y gair "Marathon" yn y fath fodd, nes gosod ei holl wrandawyr ar dân; ac hefyd, i un o edmygwyr George Whitfield unwaith ddywedyd yr aethai filldiroedd o ffordd i'w glywed yn acenu y gair "Mesopotamia."

Etto, anaddas iawn, debygwn I, a phrawf o chwaeth isel i'r eithaf yw yr arfer sydd gan rai pregethwyr genedigol ac arosol yn y Deheu-

barth o siarad a phregethu yn y Wyndodeg, neu yn iaith pobl y *North*. Pa reswm sydd ganddynt dros y fath arfer, nis gwn; nis gallaf fi edrych arni ond fel nod o wagder siol y sawl sydd yn tybied mai dyma'r ffordd i enwogrwydd, pan, mewn gwirionedd, mai mewn cyfeiriad arall y mae yn ei arwain. Y peth doethaf i bawb yw siarad ac ymadroddi yn iaith ei gymmydogaeth enedigol, yn enwedig pan y mae yn gweinidogaethu ynddi. Nid yw balchder a ffug yn gweddu i'r pwlpud, eithr bydded yno bob symlrwydd a naturioldeb.

Mae ambell i un hefyd (yr wyf wedi clywed y fath) yn hoff iawn o eiriau hirion ac annghynnefin, a d'od o hyd i'r rhai'n, gellid meddwl, yw y drafferth fwyaf mae yn gael yn nghyfansoddiad ei bregeth a'i weddi. Yr wyf lawer gwaith wedi synu na byddai llawer un yn tagu pan y mae y chwe-silliau a'r deg-silliau yn ymwthio ar draws eu gilydd wrth dd'od allan o'i enau! Nid pregethu yr Efengyl yw hyn, a gosod ffordd iachawdwriaeth o flaen y bobl sydd yn eistedd mewn tywyllwch a chysgod angeu, a chyfeirio eu traed i ffordd tangnefedd, ond rhyw fath o ymarfer corfforol nas gellir dweyd ei fod yn fuddiol i ddim ond i ddyfyru ieithegwyr, os dyfyrwch o hono. Arferer ymadrodd rhwydd a dealladwy, er bendith ac adeiladaeth y bobl.

Ac i mi gael bod yn farnwr, yr wyf yn meddwl y dylai prancio, a bloeddio, a phob math o ystumio anweddaidd, gael eu gadael ar ol gan rai o fynychwyr ein pwlpudau. Mae yn beth iawn fod y pregethwr, yn awr ac yn y man, yn newid cywair ei lais, yn codi ei law, ac yn gwneuthur pob peth fyddo yn weddaidd a naturiol i ddangos ei fod â'i galon yn y gwaith, ac ar ei oreu i gael gan y bobl i'w ddeall ac i deimlo hefyd; ond nid yw yn cydweddu ag urddas y pwlpud fod ynddo greadur gwyllt, cynddeiriog, a'i lygaid yn nghau, a'i ben yn agored yn rhuo, a'i ddyrnau yn nghau yn curo'r awyr, ac yn wabio yr Hen Lyfr bendigedig nes yn ymyl syrthio dros y ddarllenfa. Dylai *performance* anmhrydferth fel hwn gael ei annghymmeradwyo gan bob dyn synwyrol.

Yn y pwlpud hefyd, tra fyddo yn gyssegredig i Gristionogaeth, a thra byddo dyn yn caal ei gyfrif yn bechadur, ni ddylai dim gael ei bregethu ond yr Efengyl—y newyddion da o lawenydd mawr. Mae dwndro yn nghylch *evolution*, *natural selection*, *agnosticism*, a phethau cyffelyb, yn waith hollol ddi-les yn nghlywedigaeth y bobl gyffredin, gan nad faint o ddaioni y mae yn wneyd i eneidiau pechaduriaid gwybodus a *genteel* ein cynnulleidfaoedd. Debygwn I mai gwell yw cadw mor agos ag y gellir at symlrwydd cenadwri Iesu Grist fel y mae wedi ei chadw ar glawr yn y Testament Newydd, a gadael gwyddoniaeth a Darwiniaeth, a'r holl aethau dyrus ereill, i gael eu trafod mewn manau priodol gan ddysgedigion yn nghlyw dysgedigion.

Bai arall yn ngwasanaeth y pwlpud, weithiau, yw ei *hyd* neu ei *feithder*. Mae ambell i frawd, wedi cael gafael mewn *idea dda*, fel y mae'n tybied, yn penderfynu gwneuthur y goreu o honi, ac yna yn neidio oddiamgylch iddi, a throsti, a throsti drachefn, yn debyg i wraig a chanddi ond ychydig o wlân yn nyddu'r edafedd can feined ag y gallo. Yr ydys yn rhwym o addef fod meithder y weddi a meithder y

bregeth, yn nghyd â'r holl emynau a'r pennodau a ddarllenir yn yr un cyfarfod, yn trethu amynedd y gwrandawyr (os ydynt yn gwrandaw hefyd) yn drwm iawn ar rai troion, fel nad yw ryfedd yn y byd eu bod yn achwyn. Mewn rhifyn diweddar o'r *Sword and Trowel*, mae Mr. Spurgeon yn rhoi cynghorion lled ddwys i fyfyrwyr a phregethwyr ar y pen hwn. Mae yn eu cynghori i ochelyd meithder yn eu gweddiau a'u pregethau yn anad dim, ac y mae yn ergydio yn drwm ar y rhai sy'n euog o hyny. Nis gallwn I fy hunan lai na theimlo dan rai o'r *hits*, a thebyg fod llawer ereill yr un modd. Yn mhlith pethau ereill, dywed na ddylai yr un pregethwr ddweyd y cwbl y mae yn wybod ar y pryd yn yr un bregeth—mai doeth yw cadw taten yn *spâr* erbyn y pryd nesaf. Dylid gwasgu a dwyso y meddylddrychau, fel na byddo i'w roi i'r bobl ond yr *essence*, y sylwedd. Yr ydym yn byw yn oes yr *essences*, y *condensed milk*, &c. Os meddylir fod y bobl wedi cael eu pregethu *i* hwyl, gofaler peidio eu pregethu *allan* o hwyl â meithder. Iawn hefyd fyddai i'r pregethwr ystyried nad yw ei bregeth, efallai, yn llawn mor bwysig yn ngolwg y gynnulleidfa ag ydyw yn ei olwg ei hun. Bore ddoe, cyn i mi fyned i mewn i'r capel, dywedodd fy hen gyfaill Lewis Jones wrthyf am ofalu na byddwn yn hir iawn fy anadl yn y pwlpud—mai pregeth fer oedd oreu bob amser, hyd y nod pan y byddai yn bregeth ddrwg. Efe oedd yn dweyd, ond yr oedd yno amryw yn ei eilio.

Yr wyf wedi methu bod yn unol â'm haddewid yn y dechreu. Mae fy ysgrif wedi myned yn faith. Maddeuwch i mi.

Mawrth 15, 1886. AP IOAN.

SIOMIANT.

TON, "COED Y FYNWENT" *(Camb. Minstrel*, tud. 87.)

Gwrandewch yn dosturiol a manol, y mwyn
Gyfeillion glân, hawddgar, fy ngalar a 'nghwyn;
Gofidus alaru, hiraethu yr wyf
Dan ofid o'r dyfna', p'le byna' y b'wyf;
Trwy'r nos yn deisyfu am iddi ddyddhau,
A'r boreu mewn du-lo's am nos i neshau;
Bob awr 'rwy'n och'neidio a gwywo dan gur,
Yn hollol ddi-fwyniant, waith Siomiant chwith, sur.

I'm pabell daeth Siomiant, aflwyddiant yn flin,
A dudew dywyllwch, oer dristwch i'w drin;
Yn mlodau fy mywyd, dan bennyd fawr bŵn,
Fi'n eithaf trallodus anhoenus gwnaeth hwn;
'Does imi ddyddanwch, gwybyddwch, mewn byd,—
Mae pob rhyw ddychymyg yn gaddug i gyd;
Ow! dim ond och'neidio a gwywo dan gur,
Yn hollol ddi-fwyniant, waith Siomiant chwith, sur.

Er myned i grwydro a rhodio ar hyd
Meillionog hardd ddolydd a bröydd ryw bryd;
Er clywed glwys gathlau, cydgeinciau pêr, cu,
Yr adar soniarus, mor felus im' *fu*;
Er llon ymddyddanion cyfeillion yn gant,
Er pennill, er englyn, er telyn, a'r tant,
Er gwenau fy nghariad a'i bwriad yn bur,
'Rwyf *fi* yn ddi-fwyniant, waith Siomiant chwith, sur.

Ow! Siomiant erchyllwedd! ei ddannedd ynt ddur,
Hen fwystfil mileinig, gwenwynig ei gur;
Pob oedran, yn ddiau, pawb graddau, pob grâ'n,
Gânt ganddo archollion, wŷr mawrion a mân;
A chanddo 'rwyf finau dau glwyfau yn glaf,
Nas gwn gan fy nolur, yn wir, beth a wnaf;
Waith hyn, rho'f derfyniad i 'nghaniad a 'nghwyn,
Yn ddwys archolledig, siomedig was mwyn.

CYNONWYSON.

NODYNAU GWASGAROG.

CASABIANCA.

Yr oedd ei dad wedi ei adael i ofalu am y llyw. Adeg ryfedd oedd, ac yr oedd y llong, gydag ereill, yn ymosod ar ryw ddinas—Alexandria, feddyliaf. Gorchymyn y tad oedd—Aros di wrth y llyw nes delwyf fi yn ol. Ac ufuddhau yn ardderchog wnaeth y bachgen bach. Aethpwyd ato, a cheisiwyd ganddo ffoi, am fod y llong wedi cymmeryd tân. Na, wnelai ef ddim ffoi. Yr oedd ei dad wedi ei orchymyn i aros yno, ac aros yno wnelai ef, ac aros yno wnaeth. Dywedwyd wrtho fod ei dad i lawr, a'i fod wedi marw. Nid oedd dim a'i tynai o'r fan. Dywedwyd wrtho fod y llong bron suddo. Nid oedd dim gwahaniaeth. Safai efe wrth ei bost, a sefyll wnaeth, a phan suddodd y llong, aeth yntau i lawr gyda hi. Dyna ffyddlondeb ardderchog a chanmoladwy. Gallwn feddwl y rhoddai'r angylion fanllef o gymmeradwyaeth i'r bachgen yna, pan yn myned i mewn i'r gogoniant. Daliodd wrth bost dyledswydd yn ffyddlon hyd y diwedd. Dyma wers i ninau, nad beth ddygwyddo, i ddal wrth bost ein dyledswydd. A yw y gorchwyl yn anhawdd neu yn drwm, neu yn beryglus? Etto i gyd, glynwn wrtho fel y bachgen hwn. T. C. U.

DAL WRTH DY BOST.

Nad beth fyddo, dal wrtho yn ffyddlon hyd y diwedd. Mae Rhagluniaeth dirion wedi dy ddanfon dros ychydig i gyflawnu dy ran ar chwareufwrdd bywyd. Gwna dithau dy ran yn ffyddlon. Yw y baich

yn drwm? Dal wrtho. Oes ynot ti duedd i ffoi? Paid ymddwyn yn gowardaidd. I ba beth y gwnei di, cyn dy amser, basio drwy y llen dywell, ac i blith cwmni yr anllygredigion heb dy wahodd? A garet ti fyned i fewn at y cwmni hwnw, a theimlo nad oes groesaw yno i ti? A garet ti ddarllen yn ngwyneb pob un o'r gwyddfodolion yr holeb trist, "Pwy a'th ddanfonodd di yma?" Dal di wrth dy bost. Fe enfyn Rhagluniaeth dy ollyngdod i ti yn ei amser da ei hun. Fe wyr oreu; rho dy hyder arno. Na chamddealler y geiriau hyn. Fe, y Tad goreu, wyr oreu o bob tu, a pheidiwn ninau â barnu ein gilydd. A oes brawd neu chwaer, i'n hymddangosiad ni, wedi prysuro at ei derfyn? Na farnwn ni, fel na'n barner. Nis gwyddom ni sut oedd pethau yn bod, ond Efe, Duw, a wyr. Gadawn bob barn iddo Ef. Mor anngharedig y gall rhai fod dan amgylchiadau tristaf bywyd. Mae hwn a hwn wedi gwneuthur fel hyn a'r fel, yn ddiamheu ei fod wedi gwerthu ei enaid i'r Gwr Drwg. Dyna fel y gwnei di fradychu dy anwybodaeth. Onid yw yr Ysgrythyr yn dywedyd nad oes i *leiddiad dyn* fywyd tragwyddol? A chaniatau hyny, nid yw yn perthyn i ti nac yn perthyn i'r pwnc presenol. Pan fyddo y rheswm wedi ei ddiorseddu, a'r synwyrau wedi eu dyrysu, pa mor bell y mae y dyn yn atebol am ei weithredoedd? Ni wyr dyn, fe wyr Duw. A oes bai arno? Ni wyr dyn, fe wyr Duw. Mae Llyfr y Weddi Gyffredin yma, fel mewn llawer man arall, yn anturio mwy nag a ddylai, a'r offeiriad yn gwrthod claddu. Ond nid yr offeiriad yw barnwr tynghed dyn, eithr Duw. Pam y gwnaiff dyn esgyn i orsedd barn, a barnu ei gyd-ddyn? Gwell iddo beidio. Gadawn bob barn i Dduw yn hytrach, a gobeithiwn y goreu. T. C. U.

O'R GROGBREN I'R NEFOEDD.

(*Gwel* YMOFYNYDD, 1882, *tudalen* 112).

Y mae crefydd swyddogol ein gwlad yn parhau i ddysgu fod llwybr rhwydd i'r nefoedd oddiar y grogbren. Yr ydym braidd yn synu na b'ai rhagor yn dewis y llwybr yma, gan fod cymmaint bri yn cael ei osod arno. Y rheswm feallai yw, nad oes dim llawer yn credu yr hyn a ddywed yr offeiriad; neu feallai nad yw y crogi yn dderbyniol. Ond yn sobr, gyfeillion, a oes rhyw synwyr, rhyw grefydd, rhyw gyfiawnder, mewn dysgu i lofrudd ei ferch yn Abertawe, yr hwn a barhaodd bron i'r diwedd i ddywedyd nad efe gyflawnodd y weithred erchyll o daflu ei ferch fach i'r môr i'w boddi—fod hwn i fyned *right away*, ar unwaith, oddiar y grogbren i'r nefoedd? Mae yn ddigon i godi y cyfog ar ddyn i ddarllen llythyrau yr adyn pechadurus, yr hwn sydd yn cwoto'r Ysgrythyr fel sant. Paham na chofiai y geiriau yma hefyd?—"Pob un a ddwg ei faich ei hun. Na thwyller chwi, ni watwarir Duw, canys beth bynag a hauo dyn, hyny hefyd fed efe." Yr oedd wedi ei ddysgu mai cochl oedd crefydd, neu wisg, ac y gwnaiff gwisg lân y tro yn lle calon lân. Ond sut y dichon neb gael gwisg

grefyddol lân heb galon lân sydd tuhwnt i'm dychymyg I. Ar hyd llwybr pechod y teithiodd Nash hyd y diwedd, o leiaf, felly i bob ymddangosiad, ac a ydym i gredu mai ar derfyn y llwybr hwnw y mae nefoedd? Onid llwybr rhinwedd a phurdeb, a daioni, sydd yn arwain i'r nefoedd? Dyna ddywed rheswm a synwyr cyffredin, a dyna ddywed yr Ysgrythyr. Ond nid dyna ddywedwyd wrth Nash. Yr oedd llofrudd Pontfaen yn fwy gwylaidd. Nid oedd efe, o leiaf, yn gwneuthur *exhibition* neu *show* o'i grefydd, ac o gymmaint a hyny, y mae yn teilyngu ein cydymdeimlad yn fwy.

T. C. U.

FFORDD NEWYDD I BROFI BODOLAETH Y DIAFOL.

'Doedd Carlyle ddim yn credu rhyw lawer iawn yn nghynnrychioldaeth y bobl mewn seneddau, ac yr oedd yn edrych gyda dirmyg ar bob helaethiad o'r etholfraint a gymmerodd le yn ystod ei fywyd. Yr oedd ei wir syniad ef am lywodraeth yn cael ei sylweddoli pan y byddai dyn mawr, doeth, a galluog, fel Cromwell, yn cymmeryd yr awenau i'w law ei hun, a'r bobl, drwy swyn personoliaeth a chymmeriad mor uchel, yn ymostwng yn ufudd i'w gynlluniau a'i drefniadau. Siaradai, braidd, bob amser, gyda gwawd am y Senedd Brydeinig ag ydym ni, ar y cyffredin, mor barod i ymffrostio ynddi; a diwedd ei gân, fynychaf, fyddai dweyd mai *system* bydredig oedd hono a roddai yr un llais yn neddfwriaeth y wlad i Judas Iscariot ag i Iesu Grist neu yr Apostol Paul. Yr oedd hyna o eglurhad yn ofynol cyn myned yn mlaen at yr ystori. Yn ystod un ymweliad a wnaeth Emerson o America â'r wlad hon, treuliai lawer iawn o'i amser yn nghymdeithas ei hen gyfaill, Carlyle, yn Chelsea. Rhyw ddiwrnod, mewn ymddyddan, cafodd Carlyle allan nad oedd Emerson ddim yn credu yn modolaeth y diafol. Ystyriai Carlyle y fath ddiffyg yn ei gyfaill, braidd, yn andwyol, a phenderfynodd i wneyd ei oreu i'w argyhoeddi o'i gyfeiliornad. Dewisodd y cynllun mwyaf effeithiol a wyddai efe am dano. Arweiniodd Emerson trwy heolydd gwaethaf Llundain, lle yr oedd y diafol yn teyrnasu yn ei rwysg. Dygodd ef wyneb yn wyneb â holl ffieidd-dra y ddinas—y dyfnder ar ddyfnder o ddrygioni sydd yn treiddio trwy bob haen o gymdeithas yno. Gofynai i Emerson ar ol dyfod allan o bob rhyw nythle annuwiol, "A ydych chwi yn credu yn modolaeth y diafol yn awr, Mr. Emerson?" Siglai Emerson ei ben gyda phob cwestiwn i ddangos nad oedd e' ddim etto wedi llyncu yr athrawiaeth. 'Doedd dim i wneyd gan Carlyle ond syrthio yn ol ar ei *reserve*—yr unig *argument* oedd yn aros, a'r un gryfaf, fel y tybiai ef. Cymmerodd Emerson gydag ef i *Strangers' Gallery* Tŷ y Cyffredin. Yr oedd yn noswaith ystormus yno—teimladau personol wedi eu deffroi yn ngwres y drafodaeth, y siaradwyr yn croes ddweyd, yn croes ddadleu, ac yn drwg liwio eu gilydd. Mewn gwirionedd, yr oedd yn *lively* yno; a'r olygfa,

fel mae'n dygwydd yn rhy aml o lawer, yn un nad oedd yn cyfranu un anrhydedd i'r Senedd Brydeinig. Cyffrodd Carlyle hyd y gwaelodion, trodd ar ei sodlau mewn digllonedd, ac aeth allan, gydag Emerson yn ei ganlyn. Ar ol cyrhaedd y *lobby*, gofynodd iddo gyda gwedd ddifrifol, ac mewn acenion taranllyd, "A ydych chwi yn credu yn y diafol yn awr, Mr. Emerson." Dim ond y wên angylaidd hono oedd mor nodweddiadol o Emerson a ddangosai nad oedd yr *argument* ddiweddaf ddim wedi tycio.

W. J.

PREGETH ROBERT HALL.

Unwaith, aeth Thomas Carlyle, a chyfaill iddo o'r enw Badams, i wrandaw ar y pregethwr hyawdl a phoblogaidd hwnw yn ei ddydd—Robert Hall. Pwnc ei bregeth oedd profi nad oedd Duw ddim yn gelwyddog. Defnyddiodd holl alluoedd meddwl cryf a dychymyg bywiog, yn gystal a'r iaith fwyaf hyawdl a'r areithyddiaeth fwyaf effeithiol i egluro ei fater; ac yn ddiddadl, fe lwyddodd i brofi ei bwnc. Wrth siarad am y bregeth ar y ffordd adref, dywedodd Badams y byddai *just* cystal iddo geisio profi nad yw hi ddim yn bossibl i Dduw i ymladd *duel*. Chwarddodd Carlyle yn galonog, gan ddangos ei gymmeradwyaeth o'r sylw. Mae yr amgylchiad yma yn esiampl o lawer o wendidau sydd yn perthyn i'r pwlpud. (1) Mae yn dangos gymmaint sydd yn aros yn ein duwinyddiaeth ni o'r hyn a elwir yn *anthropomorphism*, neu y duedd i edrych ar Dduw fel ni ein hunain, ac yn agored i gael ei lywodraethu gan yr un gwendidau a nwydau. Beth oedd wedi cymhell R. Hall i ddewis y pwnc yma ond y ddrwgdybiaeth ddirgelaidd fod ei wrandawyr, oddiar eu profiad o wendid dynol, yn credu fod perygl hyd y nod i'r Anfeidrol i fod yn anffyddlon i'w addewidion? Mae y diffygion yma yn ein meddylddrych am Dduw yn cael eu gwisgo ymaith yn raddol; ond tra yr erys y syniad o iawn dirprwyol—tra y parhawn ni i ganu

> "Dwy fflam ar ben Calfaria
> Gwrddasant yno 'n nghyd,
> Fflam cariad at bechadur,
> Fflam goch y *dwyfol lid*"

—tra y pregethir ac y credir mewn uffern dragwyddol o wae i bechaduriaid colledig, 'fydd ein Duw ni ddim ond corffoliad o nodweddion y dyn gwaethaf; mewn gwirionedd, 'fydd e' ddim ond *tyrant* creulawn wedi ei ddyrchafu i orsedd y cydfyd. (2) Dysged pregethwyr, hefyd, i daflu ymaith un o ddiffygion y pwlpud, sef pynciau difudd ac anymarferol. "Cystal," meddai Badams, "iddo brofi nad yw yn bossibl i Dduw i ymladd *duel*." Difudd hollol, heblaw bod yn chwerthinus, fuasai hyny, ond nid mwy difudd na miloedd o bynciau a drinir yn y

pwlpud o Sul i Sul. Difudd a blinder yspryd yw yr holl ymdrin ag athroniaeth (*metaphysics*) y natur Ddwyfol ag y cawn ni yr esiampl oreu o hono yn nghredo St. Athanasius. Amser a ballai i mi fynegu am yr holl gruglwyth o anffrwythlondeb sydd wedi ei bentyru yn nghredoau y byd Cristionogol, ac yn nghyrff duwinyddiaeth y gwahanol enwadau, a'r hwn sydd yn cael ei *retailo* o'r drysorfa yma i'r bobl o bwlpudau eglwysi a chapeli. "Y gair sydd yn agos atat, yn dy enau ac yn dy galon i'w wneuthur ef." Pregethwn y gair hwn, ynte, frodyr, o'n calonau at galonau y bobl; ceisiwn ddyfod yn agos atynt yn eu hangenion beunyddiol, ac yn eu hiraeth am grefydd syml ac ymarferol. Gadawn athroniaeth, beirniadaeth, a hollti blew, gartref yn y *study*, a cheisiwn gyfranu yn y pwlpud o ddidwyll laeth y gair a fydd yn feithrinol i fywyd goreu ac uwchaf y bobl.

W. J.

YR EURGRAWN CYMRAEG.

Y mae Mr. T. C. Evans, Llangynwyd (Cadrawd), yn rhifyn Mawrth o'r *Red Dragon*, yn dywedyd mai nid y Parch. Josiah Rees (Gwel YMOFYNYDD Mawrth, tud. 69), oedd golygydd yr *Eurgrawn*, ond y Parch. Peter Williams, yr esponiwr enwog, ac un Evan Thomas, argraffydd. Wedi darllen yr hyn a roddir ar y pwnc yn Nhraethodau Llenyddol Dr. Edwards o'r Bala, ac yn Llyfryddiaeth y Cymry, yr ydym yn credu fod genym sail dda i lynu wrth ein tyb blaenorol, sef mai Mr. Rees oedd y golygydd—efe yn benaf, nad pa gymmaint o help a roddid gan y ddau arall, o herwydd eu cyfleusdra i'r wasg. Gallwn feddwl mai efe oedd yn cyflawnu y swydd olygyddol, gan mai iddo ef yr anfonid y gohebiaethau—efe oedd yn eu trefnu, ac efe oedd yn atebol am yr arian i dalu'r argraffydd. Nid ydym am leihau un *credit* a ddichon fod y ddau ereill yn ei deilyngu, ond nid oes ar Peter Williams, golygydd y Beibl sydd yn dwyn ei enw, angen wrth bluf benthyg i ddyogelu ei glod; ac nid oes eisieu gwneuthur dim i ddibrisio gwaith Evan Thomas, hyd y nod os nad oedd ond cyssodydd a darllenydd prawfleni yn argraffdy Ioan Ross; ond yr hyn a gredwn yw, nad yw Josiah Rees ddim, hyd yma, wedi cael y clod dyledus iddo mewn cyssylltiad â llenyddiaeth Gymreig, a hyny yn benaf, feallai, am ei fod yn weinidog parchus yr enwad Undodaidd yn y Gellionen. Tebyg iawn fod y ddau ereill yn noddwyr caredig, ac hefyd yn ysgrifenu peth. Mae Mr. Evans yn awgrymu hefyd fod "Ieuan Brydydd Hir" yn ohebydd; ond gwyddys fod "Cywydd Methiant," yr unig ddarn o farddoniaeth ar enw y Prydydd Hir yn yr *Eurgrawn*, wedi ei ysgrifenu tua 1450, ac nad pa gymmaint y gallai fod cariad yr awdwr hwnw at lenyddiaeth ei wlad, nid tebyg y gallai roddi un help i gyhoeddiad a ymddangosodd yn 1770.

T. C. U.

HUGH MEREDITH.

Ychydig o argraff mae y rhan amlaf o ddynion yn adael ar eu hoes. Fel y Sais hwnw—Gwalter Mechain sydd yn gwneuthur y dyfyniad—ychydig o son a wnaeth am dano ei hun, a cheir ei feddargraff fel hyn :—

Here lieth the body of John Nokes,
Who lived and died like other folks.

"Like other folks," wrth bob tebyg, oedd bywyd Hugh, ac etto, yn ddiamheu, gallasai wneuthur yn well. Fel hyn y dywed Benjamin Franklin am dano (yr oedd Benjamin yn gweithio yn yr un swyddfa ag ef) :—"Hugh Meredith, a Welsh Pennsylvanian, 30 years of age, bred to country work; yr oedd yn onest, yn synwyrlym, yn ddyn o brofiad, ac yn hoff o ddarllen." Felly, hefyd, oedd Benjamin, yr hwn a gododd o fod yn argraffydd i fod yn un o'r dynion pwysicaf yn ei oes. Sut, ynte, na wnaeth Hugh gyrhaedd rhywfath o enwogrwydd? Odid nad oedd yno ryw *ond* yn rhwystr. Oedd, yn siwr, y mae Benjamin yn ychwanegu, "*but* he was addicted to drinking." Dyna ddigon o esponiad. Ni waeth beth fyddo na dawn na dysg, os bydd dyn yn dueddol i'r peth yfed—mae yn rhwystr ddigon iddo gerdded grisiau dyrchafiad. Ieuenctyd, cymmerwch eich tair ceiniog cyntaf, a phrynwch "The Autobiography of Benjamin Franklin," a chewch wybod sut yr esgynodd Benjamin. T. C. U.

JOHN GOUGH.

Mae wedi marw. Yr oedd yn darlithio ar ei hoff bwnc i dyrfa luosog yn Philadelphia, a phan oedd pawb fel pe byddent yn hongian wrth ei wefusau, dywedodd :—"Y mae genyf saith mlynedd yn hanes fy mywyd, pan y'm dalid yn nghrafangau annghymmedroldeb. Rhoddaswn y byd, pe gallaswn eu dileu; ond och! nis gallaf." Aeth yn nes at y dorf, cododd ei law mewn modd argraffiadol iawn, a dywedodd, "Therefore, young men, make your record—" Ni chafodd orphen ei ymadrodd. Syrthiodd yn ol—derbyniwyd ef mewn cadair. Dyna ei eiriau olaf yn y byd. Feallai mai yr hyn a fwriadai ddweyd oedd, "Make your record *clean*," neu rywbeth tebyg. Mae yr ysgolfeistr yn gwasgu ar ei ysgolor, nid yn unig i geisio gwella gyda'i ysgrifenu, ond hefyd i gadw ei gopi yn *lân*. Mae pob *blot* yn anurddo y gwaith. Felly, pan fyddom yn ysgrifenu llyfr coffadwriaeth ein bywyd, mor bwysig yw i ni gadw pob tudalen yn lân. 'Allwn ni ddim symmud y *blots* ymaith; felly, dylem fod ar ein heithaf i ofalu na fyddo *blots* yn bod. "Keep your record *clean*." Edrychwch fod genych eich gwaith yn y byd yn lân. Gochelwch bob drwg—ffowch oddiwrth bob pechod. Ceisiwch gadw *caracter* glân—dyna'r unig beth

mae Rhagluniaeth wedi ei adael i'ch gofal a'ch dylanwad eich hunan. Cadwch gydwybod lân, calon lân.

Y galon loyw, lân, yr anian gywir, union,
Urddasol yw, a hawddgar iawn, a chyflawn o gyssuron.

T. C. U.

MYNED TRWY GRAU Y NODWYDD.

(*Mat. xix.* 24).

Wrth gwrs, mae yn anhawdd—'feddyliodd neb ddim arall; ond nid yw y geiriau yn awgrymu peth anmhossibl. Y peth fwriedir yw, awgrymu un peth anhawdd, a pheth arall anhawdd-lach. Sylwer fod y Gymraeg yn gwneuthur cam â'r gwreiddiol—ni sonir yno am "grau y nodwydd ddur;" na, nid nodwydd *ddur* mo honi, ond un bren. Offeryn llawer mwy nâ'r eiddom ni ydoedd, wedi ei naddu ag offeryn awch, ond nid hwn chwaith ydoedd y crau y golygid i'r camel fyned trwyddo. Peth arall oedd hwnw, wedi derbyn ei enw yn gymhariaethol oddiwrth hwn. Arferai trigolion cyfoethog Jerusalem, fel ein cyfoethogion ni, dreulio rhan o'u hamser oddicartref, tua Hebron, feallai, neu ryw fan cyffelyb. Wrth ddychwelyd, yr oeddynt yn cychwyn ar ol i oriau poethaf y dydd basio, gyda'r canlyniad fod drysau y pyrth wedi eu cau cyn y cyrhaeddent Jerusalem. Ie, wrth gwrs, fe ddylai'r darllenydd gofio nad yw Jerusalem yn debyg i fwyafrif ein trefydd ni, gan ei bod wedi ei hamgylchu â chaerau, er mwyn amddiffyniad. Yn y caerau, y mae tri phrif borth. Cauir y pyrth ar ostyngiad haul, ac ni agorir hwy mwy hyd y boreu, ddim hyd y nod i brif ddyn y wlad, neu y ddinas. Mae drysau y pyrth yn fawrion, ac yn drymion iawn, gymmaint ag y gall pump neu chwech o ddynion eu gwthio yn nghyd. Wedi cau y pyrth, mae y ddinas trwy y nos dan wyliadwriaeth. Saif ar y caerau ryw 34 o dyrau, ac o bryd i bryd, gyrir y *password* o dwr i dwr, amgylch ogylch y ddinas, i awgrymu fod pob peth yn iawn. Fel yr awgrymwyd, weithiau daw rhai at y pyrth yn ddiweddar, gyda'u camelod a'u cyfoeth, &c., ond ni agorir y pyrth i neb. Na wneir i neb. Dichon y gwyr y darllenydd beth yw *tip*, neu *palm-oil*, neu y *golden key*. *Backshish* y gelwir ef yn y Dwyrain. Nid oes braidd dim saif o flaen hwnw yno mwy nag yma. Mae hyd y nod y prif swyddogion mewn perygl o syrthio dan ei ddylanwad. Felly, dyma'r diweddariaid yn curo wrth y porth. Mae rhywun oddifewn yn ateb, ac yn gofyn pwy sy' yna, a'r diweddariad yn ateb. Ac yna, fe agorir—na, na, nid y drws mawr sydd yn gofyn chwech o ddynion i'w wthio—ond rhyw lygedyn o ddrws, mwy, wrth gwrs, na chrau ein nodwydd ni, ond un a adwaenir hyd heddyw wrth yr enw, "crau nodwydd" y porth, ac at hwn, yn ddiamheu y cyfeiriai'r Athraw. Ie, fe agorir drws bach yn y drws mawr—drws ar lun crau y nodwydd bren. Mae y swyddog yn derbyn y *tip*. Byddai yn annyogel aros allan trwy y nos. Yn awr, byddai yn anmhossibl cael y camel trwy y crau gyda'i lwyth; felly, tynir y llwyth i lawr, a bwrir ef i mewn trwy y drws bach, sym-

mudir y cyfrwy, un mawr ydyw hwn, wedi ei wneuthur o wellt, a'r cynfas a'r cwbl, nes yw y camel yn noeth glân. Ac yna, dechreuir i'w gael trwy y crau. Plygir ei ben uchel i lawr, mae un o'r dynion yn pasio trwy y crau (y gwas, feallai, nid y meistr cyfoethog), ac yna, yn tynu wrth y ffrwyn nes cael y pen a'r gwddf i mewn yn ddyogel. Wedi hyny, codir, a cheir un droed flaen i fewn, ac yna, un arall, tra mae gwas y tucefn yn gwthio yr anifail yn y blaen, a llwyddir yn y diwedd i gael y camel trwy grau y nodwydd, ond nid heb gryn lawer o drafferth. Yn dra thebyg, ceir y cyfoethog "ryw ddydd yn mhell," ond wedi llawer mwy o drafferth, heb ei gyfoeth, heb ei aceri llydain, heb ei wisg borffor, a'i "West of England broad-cloth," heb ei gerbyd a'i geffylau, megys gyda chroen ei ddannedd, fel y dywedir, trwy grau nodwydd drws mawr y porth sydd yn arwain i'r nefoedd.—*Allan o Ddarlith Miss Finkelstein, boneddiges wedi ei geni yn Jerusalem.*

Manion a Hanesion.

Nid yr hyn a ddarllenir ond yr hyn a gofir a wna ddyn yn wybodus.

Ruskin sydd wedi gofyn: Beth allwch ddywedyd am Carlyle, oddieithr ei fod wedi byw yn y cymmylau, a'i daro â mellten?

Dywedodd Spurgeon wrth bregethu ar yr esgyrn sychion (Ezec. xxxvii) "fod bywyd tragwyddol wedi ei roddi i gredinwyr, ac nas gallant hwy farw." A phwy yw y credinwyr, wys?

Mae un Mr. Strong wedi ei dori allan oddiwrth gyfundeb Ysgotaidd yn Melbourne, Awstralia. Yr oedd yn weinidog ar gynnulleidfa lwyddiannus, yr hon sydd wedi myned allan gydag ef, ac wedi penderfynu adeiladu capel newydd iddo. Dywedir nad oes amheuaeth fod Mr. Strong yn Undodwr.

Dywedodd *lady* o Ffrainc ei bod yn caru *ladies* Lloegr am nad ydynt yn dywedyd celwydd. O na byddai yn fwy gwir.

Yn Ysgol Sul Dukinfield gellir gweled presentau wedi eu dwyn gan hen ysgolheigion bron o bob parth o'r byd.

A oes prydferthwch mewn ffurfiau o ddefnydd, a dim yn ngweithredoedd cymeriad dyn?

Faint o wahaniaeth sydd rhwng ffafrio drwg a chyflawnu drwg?

Dywedir mai Thales oedd y cyntaf i ddarganfod diffyg ar yr Haul

Cafwyd cyfarfod hwylus yn Pantdefaid, prydnawn dydd Mercher, y 24ain o Chwefror diweddaf—prydnawn Gwyl De flynyddol yr Ysgol Sul. Daeth yr ysgolheigion a'r athrawon, a chyfeillion yr achos yn nghyd yn gwmni lluosog, a throdd y gylchwyl allan yn llwyddiannus dros ben. Cafodd pawb eu gwala o dê a bara brith; a'r hyn oedd yn weddill a gymmerwyd ac a ranwyd rhwng y rhai oeddynt absenol—sef yr ysgolheigion oeddynt yn nhref oherwydd afiechyd, a'r rhai o'r hen bobl perthynol i'r gynnulleidfa. Wedi darfod â'r tê a bara brith, anrhegwyd pob un o'r ysgolheigion, yn fechgyn ac yn ferched, o gylch 127 mewn rhif, â *scarfs, ties, pocket-handkerchiefs, collars,* a phethau cyffelyb. Rhoddwyd oddeutu ugain o lyfrau yn wobrau i'r ysgolheigion mwyaf rheolaidd yn eu *attendance* y flwyddyn a basiodd. Wedi myned trwy hyn o waith, cafwyd cyfarfod o natur arall, yr hwn, wedi appwyntio cadeirydd, a agorwyd ag anerchiadau doniol mewn rhyddiaith a phrydyddiaeth gan Meistri Samuel a David Thomas. Adroddwyd gan blant yr ysgol ryw ddeugain o ddarnau prydyddol a rhyddieithol, a chanwyd un-ar-ddeg o dônau gan wahanol gôrau. Yr oedd y capel wedi ei sacko, neu, mewn llafar gwlad, *dan sec.* Buwyd yno hyd ddeg o'r nos cyn gorphen. Pe enwid gwragedd (nid ydynt yn foddlon galw *ladies* arnynt) a roddasant eu gwasanaeth ar yr achlysur ac a ddygasant y draul, byddai rhaid enwi y rhan amlaf o wragedd da y gynnulleidfa. Mae yn ddrwg genyf na chawn alw *ladies* arnynt; ond diolch yn fawr iddynt un ac oll.—*Gohebydd.*

Dywedir mae geiriau olaf Earl Beaconsfield oeddynt: I am overwhelmed.

"Forth" a "Ffwrdd."—Y mae gohebydd yn gofyn os oes rhyw gyssylltiad rhwng y gair Seisnig *forth* (*go forth*) a'r gair Cymraeg "ffwrdd" (dos i ffwrdd).

Ciw Tarw.—A glywsoch chwi'r banesyn canlynol erioed? Yn un o drefydd Lloegr, yr oedd Cymro'n byw gyda'i deulu, ond nid oedd ei blant yn deall ond ychydig Gymraeg. Clywodd un o honynt ryw Gymro o'r Gogledd yn sylwi am gymydog, "Mae o'n giwt (*acute*) arw." Aeth y bachgen at ei dad, a gofynodd, "*Father, what is* 'giwt arw?'" "*Bull's chicken*," meddai'r tad, *what are you thinking of*?"—*D. R.*

Cytunwch a'ch gilydd, gwnewch heddwch mewn pryd,
Neu aiff y cyfreithwyr â'r arian i gyd.

Nid oes neb yn credu yn gryf iawn mewn achos nad yw efe yn foddlon ei gynnal â'i arian yn ogystal ag â'i dafod.

Oh seize the instant time, you never will
With waters once passed by impell the mill.—*Trench.*

Mae darn hanner coron ar y llygad yn ddigon i guddio mynydd o drueni.—*W. Irving.*

Dywedir fod Cleveland yn gwneyd y 19eg o Arlywyddion yr Unol Dalaethau, ac o'r 18 blaenorol, fod chwech yn Undodiaid. Pa rai? Jefferson, y ddau Adams? Pwy arall? Nid Washington, Lincoln, a Garfield, yn sicr. Pwy rydd oleuni?

Cawn yn y *Times* yr esponiad diweddaf o'r hyn ydyw Cristion. Dywed wrthym fod yr hwn sydd wedi darllen a meistroli llyfr Mr. Spurgeon—y "Treasury of David" yn saith cyfrol—yn Gristion da. Dyna i chwi.

Yr ydym wedi derbyn 3s. oddiwrth Mr. D. Phillips, St. Clears, er mwyn gyru Yr Ymofynydd ar neges Genadol, ac yr ydym ninau wedi ychwanegu enw newydd ar gyfer hyny at restr ein derbynwyr.

Tri pheth y dylai pob dyn eu hystyried yn ddifrifol: O ba le y daeth, yn mha le y mae, ac i ba le ydd a.

Mae yn well cael heddwch heb gyflawnder, nâ chyflawnder heb heddwch.—*Seed.*

Hen gyfeillion ydynt oreu. Arferai y Brenin John alw am ei hen esgidiau, y rhai hyny oeddynt esmwythaf i'w draed.—*Selden.*

Mae rhywun wedi dywedyd yn brydferth iawn fod y llen (*veil*) sydd yn cuddio y dyfodol wedi ei gwau gan law Trugaredd.

Ystyriai Draco, y deddfroddwr enwog, fod pechodau bychain yn haeddu angeu, ac nad oedd ganddo gosp fwy i bechodau mwy. Mae y byd yn awr yn gweled gwell nâ hyn.

Nid oes un dyn erioed etto wedi cyrhaedd perffeithrwydd, ond nid oes un dyn erioed etto wedi ei wneuthur yn ddim gwaeth oherwydd ceisio ei gyrhaedd.

Bu Arglwydd Hatherly ac Arglwydd Selbourne, y ddau wedi llanw swydd "Lord Chancellor," am tua 30 mlynedd yn athrawon yn yr Ysgol Sul.

Er mwyn cadw y pryfaid allan o hen ddillad, cynghorir rhoddi'r dillad i'r tlodion.

Marwgofion.

Tachwedd yr 20fed, 1885, Ann Smith, gweddw y diweddar Thomas Smith, gynt o Wernfadog, ger Clydach, yn 68 mlwydd oed. Trigiannai Mrs. Smith amser diweddaf ei bywyd gyda ei hunig ferch yn Nhreforris. Bu yr ymadawedig yn wael ei hiechyd er ys peth amser yn ol; ond daeth yn well, nes rhoddi lle i obeithio y byddai iddi gael byw am flynyddau. Daeth y ddyrnod olaf yn bur annysgwyliadwy. Gadawodd fab (R. Smith, Clydach) a merch (Mrs. Morgans, Treforris) i alarn ar ei hol. Yr oedd ein hen chwaer o nodwedd garedig iawn; yn gymmydoges a chan bawb air da iddi. Bu yn ddiwyd a llafurus yn ystod ei bywyd; a mesur o lwyddiant wedi bod yn rhan iddi hi a'i theulu, er fod treialon blin wedi eu cyfarfod, hefyd, o herwydd afiechyd. Yr oedd mewn amgylchiadau cyssurus. Yr ydoedd yn un o'r ffyddlonaf gyda'r achos yn y Gellionen. Bu yn aelod yn y lle am flynyddau meithion. Daliodd afael hyd y diwedd. Collwyd yn yr hen chwaer hon etto un o golofnau yr achos yn y lle. Rhyfedd fel y mae y cedyrn yn syrthio yn yr hen eglwys hon! Yr oedd yr hin yn anffafriol iawn y dydd Mawrth canlynol—

dydd yr angladd—ond daeth tyrfa fawr o gyfeillion a pherthynasau o bell ac agos, i'w chludo i hen fynwent Gellionen, lle ei gosodwyd i orphwys yn *vault* y teulu. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan John Evans, gynt weinidog y lle, yr hwn, ar gais y teulu, a bregethodd ei phregeth angladdol ar y Sul, y 27ain o Ragfyr canlynol, i gynnulleidfa barchus ond galarus, oddiar y geiriau "Yr hyn a allodd hon, hi a'i gwnaeth." Yn ddiamheu, teimla ei hanwyl blant a'i chwiorydd, yn neilldnol Mrs. Williams, Tygwyn, yr hon oedd yn analluog gan afiechyd i fod yn yr angladd, hiraeth dwys ar ei hol; ond na fydded iddynt alaru fel rhai heb obaith am adgyfodiad yn y dydd diweddaf.—*J.E.*

Rhagfyr y 23ain, yn 68 oed, Morgan Thomas, o'r Drefnewydd-yn-Nottais. Bu yr ymadawedig yn wanaidd ei iechyd am flynyddau; er hyny, yr oedd ei farwolaeth yn dra annysgwyliedig. Yr oedd yn ddyn a gafodd ei ddonio â galluoedd meddyliol nerthol, y rhai a barhaodd efe i wrteithio hyd ddiwedd ei fywyd; ac er na chafodd ond manteision addysg arferol ei oes a'i gymmydogaeth, yr oedd, o'r diwedd, yn alluog i ddarllen gyda dyddordeb rai o'r llyfrau goreu ar *philosophy*, *science*, a duwinyddiaeth. Bu yn ffortunus i gael cyfeillach dda pan yn ddyn ieuanc yn y Dinas, ac arferai efe ac ychydig o'i gyfeillion gyfarfod eu gilydd i ddarllen llyfrau fel "Combe's Constitution of Man," a thriu pynciau fel "Ewyllys Rydd ac Angenrheidrwydd," "Phrenology," a'r cyffelyb. Yr oedd yna, y pryd hwnw, yn y Dinas, lawer â thuedd at Undodiaeth ganddynt, ac yn achlysurol, aethai yr ymadawedig ac ereill oddiyno i'r capel Undodaidd yn y Bettws. Derbyniai efe hefyd yn gysson Yr Ymofynydd. Carai yn fawr gyfeillach y gweinidogion Undodaidd, ac ereill a wnaent ymddyddan ag ef yn rhydd ar ei hoff bynciau. Medrai efe siarad yn hyawdl ar braidd bob pwnc, ac fel rheol, byddai ei syniadau ef yn llawer mwy *advanced* na'r cyffredin. Bu yn hynod o lwyddiannus yn ei alwedigaeth o ffermu, ond o herwydd afiechyd, gorfu arno *retiro* flynyddau yn ol. Claddwyd ef y Sadwrn canlynol, yn mynwent y plwyf. Gweinyddwyd yn y tŷ gan y Parch. W. Parry, Penybont. Gadawodd i alaru ar ei ol weddw, nith, chwaer, a llawer o berthynasau agos ereill.

Ionawr y 7fed, 1886, claddwyd wrth gapel Gellionen, Ann, merch i'r diweddar Howell Thomas, Collier's Arms, Craigtrebanws. Bu farw ar y Sul blaenorol, wedi nychu am beth amser o'r *phthisis*, yn 22 mlwydd oed. Teimlai ei mam, ei chwiorydd, a'i brodyr, yn ddwys ar ei hol. Gweinyddwyd yn yr angladd gan y Parch. John Evans, gynt weinidog y lle.

Chwefror y 1af, David Davies (Dafydd Richard), Craigtrebanws, yn 84 mlwydd oed. Gadawodd ar ei ol weddw oedranus, pedwar mab, un ferch, ac amryw wyrion. Yr oedd yr hen wr wedi bod am flynyddau o'i fywyd yn ngwasanaeth y Reesiaid o'r Gelligron. Bu am ryw amser yn gynydd i Richard Rees, Ysw., o Alltycham. Wedi i deulu y Reesiaid farw, ac ereill o honynt ymadael o'r ardal, byddai yn ofalus iawn o feddau y teulu uchod yn mynwent Gellionen. Gwnaeth hyn yn hollol ar ei draul ei hun am flynyddau; ond rhyw bymtheg neu ugain mlynedd yn ol, gwnaeth yr ysgrifenydd *statement* o'r *case* i Dr. G. O. Rees, o Lundain (wyr i'r Parch. Josiah Rees, Gelligron), a chydnabyddodd hwnw yn garedig wasanaeth yr hen was ffyddlon hwn i'r teulu ar aml dro wedi hyn. Cofiodd am dano yn garedig a sylweddol yn ei afiechyd olaf hwn. Bu yr ymadawedig yn aelod ffyddlon yn y Gellionen am yspaid helaeth o'i fywyd maith. Y dydd Iau canlynol, claddwyd ef wrth y capel, pryd y gweinyddwyd ar yr achlysur gan J. Evans, gynt weinidog y lle.—*Jno. Evans.*

Chwefror y 12fed, William Beynon, neu, fel yr adnabyddid ef yn fwyaf cyffredin, "Bili Beynon," Merthyr, yn 83 oed. Hanai ein cyfaill o deulu cyfrifol a fuont yn golofnau yn dal i fyny yr achos yn Hen-dy-cwrdd y Cefn, a pharhaodd Bili i fynychu'r addoliad hyd ychydig wythnosau cyn ei farwolaeth. Cafodd ei freintio ag iechyd da, ac ychydig effaith oedd pwys y blynyddau yn wneyd ar yr allanol, fel yr ymddangosai ugain mlwydd yn ieuangach nag oedd. Daeth angeu ato yn dawel a thangnefeddus i'w 'mofyn i'r orphwysfa nefol. Fel hyn, mae to yr oes o'r blaen wedi eu symmud bron i gyd, ac mae'r gwaith da yn disgyn ar ysgwyddau y do newydd. Duw a roddo nerth iddynt fod yn deilwng o'u tadau. Y dydd Llun canlynol, claddwyd yr hyn oedd farwol o hono yn mynwent yr Hen-dy-cwrdd, pryd y gwasanaethwyd gan J. H. D.

Jenkin Howell, Argraffydd, &c., Aberdar.

AT EIN DERBYNWYR.

Taliadau.—T.L., Cowbridge; Mrs. H., Gilfach Goch; Mrs. W., London. Tri swllt oddiwrth D. Phillips, St. Clears, at ledaenu Yr Ymofynydd; yr ydym wedi gosod enw ychwanegol ar gyfer hyny ar restr y derbynwyr.

Gohebiaethau.—Eiddo D.R. dan sylw.

☞ Tyner pob *Post Office Order* ar y *Mill Street* Post Office, ac yn enw R. J. Jones, Editor, &c. Cofier, fodd bynag, fod y *Postal Orders* weithiau yn rhatach nâ'r *Post Office Orders*. Fe ddylid bob amser defnyddio *Postal Orders* yn lle *stamps* mor bell ag y gellir.

Telerau:—Pris 3c., trwy'r post, 3½c.; ar dri rhifyn a throsodd telir y eludiad.

☞ *Anfoner pob archebion a gohebiaethau at*

The Editor of "Yr Ymofynydd,"
Meirion Cottage,
ABERDARE.

CYFARFOD CHWARTEROL Y PASC

A gynnelir yn Llwynrhydowen Mercher a Iau, Ebrill yr 28ain a'r 29ain. Y cyfarfod, nos Fercher, yn dechreu am 6.30. Dydd Iau, am 10, traddodir y bregeth gan y Parch. W. J. Davies, Dowlais. Y Gynnadledd am 2, pryd y darllenir dau bapyr—un gan y Parch. R. J. Jones, M.A., Aberdar, ar "Ystyr a dylanwad y symmudiad a gychwynwyd gan Jenkin Jones, Llwynrhydowen, yn y flwyddyn 1726;" a'r llall gan y Parch. W. Parry, Penybont, ar "Ofynion yr oes oddiwrth grefydd." Cyfarfod pregethu yn yr hwyr am 6. Gwasanaethed yr hyspysiad hwn fel gwahoddiad cynhes i'r gweinidogion ac ereill i fod yn bresenol.

Mawrth yr 17eg, 1886. W. James.

CYMDEITHAS Y WEINIDOGAETH UNDODAIDD.

Mae llawer o ddarllenwyr presenol Yr Ymofynydd wrth bob tebyg nad ydynt erioed wedi clywed son am y Gymdeithas uchod. Cymdeithas ydyw at gynnorthwyo dynion ieuainc i gael addysg rhagbarotoawl ar gyfer y weinidogaeth. Drwg genym ddywedyd fod y *Funds* yn bresenol yn isel iawn, ac felly yr ydym yn apelio at garedigrwydd yr hen danysgrifwyr yn ogystal â rhai newydd, (mae eisieu rhai newydd) fel y gallom helpu ymgeiswyr. Mae y Gymdeithas wedi bod o wasanaeth da yn y gorphenol, gall cyfeillion helpu iddi fod o wasanaeth etto yn y dyfodol. A gawn ni gan y cyfeillion ddwyn y mater gerbron y cynnulleidfaoedd? Ysgrifenydd y Gymdeithas yw y

Gol.

Derbyniadau.—J. Evans, Dowlais, 3s.; E. Plummer, 21s.; D. Phillips, St. Clears, 13s.

TRECYNON SEMINARY, ABERDARE.

R. JENKIN JONES, M.A., HEAD-MASTER.

☞ *Vacancies for two Boarders. Terms on Application.*